BWLETIN POLISI CYTÛN

EBRILL/MAI 2016

MANIFFESTOS Y PLEIDIAU

Cyn yr etholiad, fe fu i Cytûn gysylltu â'r pleidiau gwleidyddol yng Nghymru i ymateb i'w maniffestos drafft a datganiadau polisi eraill, a chyflwyno rhai syniadau ar gyfer y maniffestos terfynol. Bu i rai o'n haelod fudiadau wneud yr un fath. Bellach fe gyhoeddwyd y maniffestos hynny, a chawsom gyfle i'w hystyried.

Nid yw'r adnoddau gan Cytûn i wneud dadansoddiad manwl o bob rhan o bob maniffesto, ond rydym yn cynnig heddiw fanylion am y meysydd sydd o'r diddordeb mwyaf i'n haelod eglwysi, a chrynodeb o rai polisïau eraill. Ceisiwyd rhoi gwybodaeth nad yw wedi cael ei bwysleisio ar y cyfryngau hyd yma.

Mae'r pleidiau wedi amrywio'n fawr yn sut y meant wedi cyflwyno eu polisïau. Er enghraifft, mae Plaid Cymru a'r Blaid Werdd yn enwedig yn cyflwyno nifer o amcanion hir-dymor ochr yn ochr â'u cynigion polisi manwl ar gyfer y Pumed Cynulliad. Mae rhai pleidiau wedi cyhoeddi maniffestos penodol ar gyfer rhai carfannau o'r boblogaeth (megis pobl ifainc neu bobl hoyw) neu yn ymwneud â phynciau penodol (megis iechyd). Mae rhai wedi cyhoeddi manylion pellach mewn dogfennau atodol, a mae maniffesto'r Blaid Lafur, sydd mewn llywodraeth ar hyn o bryd, yn datblygu dogfennau polisi a Chyllideb cyfredol Llywodraeth Cymru mewn sawl maes. Yr unig blaid arall i gyhoeddi costiadau manwl ar hyn o bryd yw Democratiaid Rhyddfrydol Cymru.

Nid yw diffyg cyfeiriad at bolisi penodol yn golygu bod plaid o reidrwydd yn ei wrthwynebu. Mae hynny'n arbennig o wir yn achos polisïau newydd a awgrymir gan un blaid nad yw'r pleidiau eraill eto wedi gallu ymateb iddyn nhw.

Ffydd, crefydd, "eithafiaeth" a chydraddoldeb

Prin yw'r cyfeiriadau penodol at grefydd. Cyfeirir weithiau at "eithafiaeth" a "chydraddoldeb", gydag awgrym efallai fod yna wedd grefyddol i'r mater, ond heb gyfeiriad at grefydd yn benodol.

- Mae'r Blaid Lafur yn dweud *Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a'n partneriaid i rannu arfer gorau yn sicrhau diogelwch pobl Cymru ac i weithredu yn erbyn eithafiaeth* (t. 9) a *Rydym yn blaid o gydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol* (t. 9) ond heb gyfeirio at grefydd. Yn y maniffesto drafft roedd cyfeiriad penodol at gryfhau gwaith Cyngor Rhyng-ffydd Cymru a'r Fforwm Cymunedau Ffydd, ond fe hepgorwyd hynny o'r ddogfen derfynol.
- Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn addo *Attract more visitors to Wales' Places of Worship, including with an integrated strategy to promote faith tourism paths such as the Cistercian Way* (maniffesto llawn, t. 92). Mae hyn yn ymateb i waith Sanctaidd, sy'n aelod gyda Cytûn. Nid oes cyfeiriadau penodol eraill at grefydd, ond o ran cydraddoldeb fe addewir *Ensuring all people are treated fairly, including monitoring how diverse communities are affected by policing priorities and methods* (t.60), ac addewidion penodol am sicrhau cydraddoldeb i'r ddau ryw a phobl o hiliau gwahanol o fewn penodiadau cyhoeddus (t. 60).
- Y Blaid Werdd yw'r unig blaid i gynnwys dau addewid penodol, yn unol â chais Cytûn, am gydraddoldeb crefyddol: *Adolygu a chryfhau deddfwriaeth sy'n diogelu hawliau pobl yn erbyn gwahaniaethu ar sail oed, rhyw, tueddfryd rhywiol, crefydd neu gred, anabledd, cefndir ethnig neu nodweddion gwarchodedig eraill* a *Creu*

Gweinidog Cydraddoldeb i sicrhau bod anghenion pob un yn ein cymdeithas yn cael eu diwallu ar draws gwasanaethau. O'r ifanc i'r hen, o gydraddoldeb rhywiol a rhwng y ddau ryw i gydraddoldeb o ran crefydd, a chroesawu grwpiau ethnig, crefyddol a chymdeithasol yng Nghymru. (t. 21).

- Y Ceidwadwyr Cymreig yw'r unig blaid i gynnwys adran benodol am *Ymgysylltu â chymunedau ffydd* (t. 45), gyda'r addewidion canlynol:
  - *Gweithio gyda chymunedau ffydd i gefnogi cydlyniant cymunedol a threchu eithafiaeth.*
  - *Cynnal cyfarfodydd mwy rheolaidd o'r Fforwm Cymunedau Ffydd.*
  - *Parchu hawl pobl ffydd i wisgo symbolau crefyddol yn y gweithle.*
  - *Codi proffil moeseg, athroniaeth a chrefydd yn y cwricwlwm ysgol.* [Dyma'r unig gyfeiriad at addysg grefyddol mewn unrhyw faniffesto].
  - *Parhau i ariannu gwasanaethau caplaniaeth o fewn y GIG yng Nghymru.*
  - *Adolygu canllawiau gofal ysbrydol ar gyfer y GIG yng Nghymru a datblygu canllawiau ar gyfer lleoliadau gofal eraill.*
  - *Datblygu strategaeth ar gyfer treftadaeth grefyddol Cymru.*

  Maent hefyd yn cynnwys dau gyfeiriad penodol arall at grefydd. Yn gyntaf, meant yn addo *Darparu cludiant ysgol am ddim i fwy o ddisgyblion sy'n mynychu eu hysgol uwchradd ffydd neu gyfrwng Cymraeg agosaf* (t. 24), sy'n adlewyrchu cais a wnaed gan Cytûn a mudiadau eraill. [Dyma'r unig gyfeiriad mewn unrhyw faniffesto at rôl darparwyr crefyddol yn y gyfundrefn addysg]. Yn ail, maent yn addo *ceisio sicrhau bod mwy o bobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol, neu bobl o wahanol gefndiroedd ethnig neu grefyddol yn chwarae rhan* mewn bywyd cyhoeddus (t. 44).
- Mae UKIP yn cynnwys datganiad manwl am eu hagwedd tuag at grefydd: *Rydym yn cydnabod bod gwerthoedd Prydeinig a Chymreig yn cynnwys goddefgarwch crefydd. Mae UKIP wedi ymrwymo i ddiogelu rhyddid crefyddol i bob credadun yn y DU, yn unol ag Erthygl 18 o'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol. Er hynny, byddwn hefyd yn herio 'diwylliant trosedd' gan ei fod yn peryglu dileu rhyddid i lefaru. Ni fyddwn yn goddef unrhyw safbwynt ffydd sydd ynddo'i hun yn anoddefgar ac yn gwrthod cydnabod hawliau dynol eraill.* (t. 39). Yn benodol, maent yn addo *cefnogi'r defnydd o deledu cylch cyfyng ym mhob lladd-dy, yn ogystal â labelu "dull cynhyrchu" ar bob cig, pysgod a chynnyrch llaeth. Byddai hyn yn cynnwys - yn niffyg gwaharddiad ar yr arfer – arwydd pa un a yw anifail wedi'i ladd heb ei stynio ymlaen llaw* (t. 29). Cymerwn mai gwaharddiad ar ladd halal a kosher sydd dan sylw yma. Maent hefyd yn addo *sicrhau bod ysgolion yn derbyn cymorth mewn unrhyw achos amheus o eithafiaeth neu radicaleiddio* (t. 17)
- Mae Plaid Cymru yn *datgan bod pawb sy'n byw yng Nghymru, beth bynnag fo'u hiaith, lliw eu croen, eu crefydd eu gwreiddiau eu rhywedd neu eu rhywioldeb, yn ddinasyddion Cymreig cyflawn a chyfartal.* (t. 26). Yn yr adran fwy manwl am *Sicrhau Cyfle Cyfartal a pharchu Amrywiaeth* (t. 154) nid oes cyfeiriad at grefydd. Mae yna adran fer dan y pennawd *Rhwystro terfysgaeth a thaclo caethwasiaeth fodern* (t. 162), sy'n dweud *Mi gynyddwn gymorth i raglenni sy'n taclo eithafiaeth grefyddol yng Nghymru, gan estyn mabwysiadu arferion da sy'n bod a ffordd gyson a chymesur o fynd ati ledled y wlad. Wrth ddatblygu strategaeth i Gymru, mi ystyriwn ystod o ymchwil academaidd cyfoes ar y pwnc, a hefyd weithio gyda chymunedau sy'n cael eu heffeithio, i ddeall yn well achosion ymddieithrad ac eithafiaeth grefyddol.* Ni roddir unrhyw fanylion pellach, ac nid oes esboniad pam y cyplysir "eithafiaeth grefyddol" â "chaethwasiaeth fodern" yn y sylwadau hyn.

Ffoaduriaid

Fe ofynnom i bob plaid gynnwys ymrwymiad i gefnogi derbyn ffoaduriaid i Gymru a'u trin yn deg.

- Mae Plaid Cymru yn addo *Mi geisiwn wneud Cymru'n Genedl Nodded i'r sawl sy'n dianc rhag rhyfel neu erledigaeth, gan roi lefel sylfaenol o gymorth i helpu ffoaduriaid a cheiswyr lloches i integreiddio i gymdeithas Cymru* (t. 162). Mae hyn o fewn polisi mwy cyfansawdd am ymfudo, ac addewid i geisio datganoli polisi ymfudo i Gymru.
- Mae'r Blaid Werdd yn addo *Gweithio gydag awdurdodau lleol i letya ffoaduriaid, darparu gwasanaethau cymorth i'r rhai mewn angen, a sicrhau eu bod yn cael eu croesawu i'n cymunedau.* (t. 21)
- Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn addo *Sefydlu Cymru fel 'Cenedl Noddfa'* (t. 29) gan ddweud *mae yna lawer mwy y gellid ei wneud i greu diwylliant o letygarwch a chroeso i bobl sy'n ymofyn noddfa.* Ceir cynigion polisi manwl yn y maes yn y maniffesto llawn ar dud. 97.
- Nid yw maniffestos Llafur Cymru, UKIP na'r Ceidwadwyr Cymreig yn ymdrin â'r mater hwn.

Cyfrifoldebau rhyngwladol Cymru

Fe ofynnodd Cytûn i'r pleidiau nodi eu hymrwymiad i Gymru chwarae ei rhan mewn gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd a gwella bywydau pobl dramor. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi cyflwyno nodau felly ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus Cymru. Mae'r pleidiau yn ymateb ymhellach yn y maes fel a ganlyn:

- Mae'r Blaid Lafur yn dweud *Trwy gydnabod ein dyletswyddau rhyngwladol i eraill byddwn yn sicrhau bod Cymru'n chwarae rhan benderfynol yn gwella bywydau pobl mewn mannau wedi eu rhwygo gan ryfel a thrychinebau* (t. 9). *Trwy chwarae ein rhan yn amddiffyn yr amgylchedd, byddwn yn ymrwymo i ymestyn targedau allyriadau a thirlenwi fydd yn gweld Llywodraeth Llafur Cymru'n dod yn garbon niwtral erbyn 2020. Byddwn yn cefnogi datblygiad morlynnoedd llanw a chynlluniau ynni cymunedol ac yn cyflwyno mesuryddion ynni craff ym mhob cartref er mwyn lleihau biliau.... Bydd datblygu cynaliadwy yn dal yn egwyddor trefnu canolog i Lywodraeth Llafur Cymru. Mae Deddf yr Amgylchedd yn fframwaith cryf ar gyfer gweithredu hirdymor er mwyn gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd. Byddwn yn adrodd ar y dangosyddion lles newydd i fesur y cynnydd y mae ein gwlad yn ei wneud.* (t. 9)
- Dywed y Democratiaid Rhyddfrydol, *Dylai Cymru gymryd ein rôl mewn datblygu rhyngwladol, adeiladu partneriaethau diffuant â'r byd sy'n datblygu, annog cyfraniad gan grwpiau wedi'u hymyleiddio yng Nghymru, cefnogi cyfnewidiadau diwylliannol, a helpu pobl dianc o dlodi. Byddwn yn atgyfnerthu safle Cymru fel cenedl gyfrifol yn fyd-eang.* (t. 29). Mae yna addewid penodol i ddyblu cyllid Cymru i ddatblygu byd-eang. Gan nad yw hwn yn faes sydd wedi ei ddatganoli, cymerwn mai trwy gynllun Cymru dros Affrica y bwriedir gwneud hyn. Dywedant hefyd: *Byddwn yn gosod targed ar gyfer allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net erbyn 2050 ac i gynhyrchu'n holl drydan o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2025, gydag asesu effeithiau carbon ar gyfer pob deddf newydd i asesu'i heffaith ar yr amgylchedd.* (t. 15). Mae'r maniffesto llawn yn cynnwys polisïau manwl i'r perwyl hwn.
- Dywed y Blaid Werdd, *Newid hinsawdd: Byddwn yn sicrhau bod Cymru ar flaen y gad o safbwynt mynd i'r afael â'r broblem fyd eang hon drwy roi mwy o ffocws i dargedau lleihau allyriadau a phennu blaenoriaethau isadeiledd i gyrraedd y targedau hyn o ran ynni, tai a chludiant. Byddwn yn annog busnesau gwyrdd i sefydlu yn ein cymunedau, gan sicrhau bod Cymru'n meithrin yr arloesedd sydd ei*

angen er mwyn mynd i'r afael â'r bygythiad byd eang hwn. Byddwn yn gweithio i reoli a lliniaru effeithiau newid hinsawdd ac yn helpu'r rhai sy'n dioddef yng Nghymru, yn arbennig yn sgil llifogydd a chynnydd yn lefel y môr. Byddwn yn sicrhau bod Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd yn cael effaith wirioneddol yn hytrach na gosod uchelgais. (t. 6) Mae'r maniffesto yn cynnwys polisïau manwl o ran creu ynni di-garbon, ac yn pwysleisio effeithlonrwydd ynni mewn tai preswyl a chludiant cynaliadwy.

- Dywed y Ceidwadwyr Cymreig, *Mae'r cytundeb a gafwyd yng Nghynhadledd Newid yn yr Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig ym Mharis yn herio Cymru i weithio gyda gwledydd eraill er mwyn lleihau ein dibyniaeth ar danwydd ffosil a thechnolegau sy'n llygru ac sydd wedi dyddio.* (t. 35). Maent am newid rheolau cynllunio er mwyn atal *gorddibyniaeth ar ffermydd gwynt, ac annog amrywiaeth o ddulliau o gynhyrchu ynni adnewyddadwy* (t. 35), ac am hybu insiwleiddio tai (t. 36).
- Mae UKIP am ddileu gwariant ar newid hinsawdd a defnyddio'r arian er hybu cludiant ar y ffyrdd a'r rheilffyrdd (t. 31). Nid yw'r maniffesto Cymreig yn sôn am Gymru dros Affrica, ond gwyddys fod UKIP yn erbyn gwariant o'r fath.
- Mae Plaid Cymru yn addo datblygu *polisi rhyngwladol Cymreig* (t. 186) ac yn cyfeirio at ymwneud â chenhedloedd bychain eraill, yn enwedig y rhai sy'n ceisio hunan-lywodraeth. Dywed *Yr her fwyaf a wynebodd dynoliaeth erioed yw troi'n heffaith ni ar y blaned o ddinistr i fendith. Mi safleolwn ni Gymru fel cenedl sy'n arwain yn yr ymrwymiadau sero net a wnaed ym Mharis 2015* (t. 126) ac mae yna adran helaeth ar bolisïau o ran ynni adnewyddadwy, cartrefi ynni-effeithlon a datblygu cynaliadwy.

Adeiladau crefyddol

Mae Cytûn wedi mynegi gofid o ran dyfodol ein haddoldai hanesyddol. Gwelir uchod i ddwy blaid gyfeirio at gynyddu twristiaeth grefyddol. Mae'r un ddwy blaid (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a'r Ceidwadwyr Cymreig) yn awyddus i gyflwyno polisi 'Hawl i Gynnig' a allai olygu y byddai grwpiau cymunedol yn gallu rhwystro gwerthu addoldai di-angen yn eu cymunedau. Ar y llaw arall, fe all y byddai eglwysi eu hunain am gynnig prynu ambell adeilad segur gydag, neu ar ran y gymuned.

Mae UKIP yn argymell dileu Cadw fel adran lywodraethol, a rhannu ei gyfrifoldebau rhwng Croeso Cymru (o ran hybu ymweliadau) ac awdurdodau lleol (o ran caniatâd cynllunio).

Iechyd meddwl, dementia a chynhalwyr

Mae pob plaid yn dweud y byddant am roi mwy o flaenoriaeth i iechyd meddwl o fewn y gwasanaeth iechyd, a gofal dementia yn benodol. Mae UKIP wedi mabwysiadu cais polisi Cytûn er *gwella'r ddarpariaeth yn y Gymraeg ar gyfer gofal dementia a gofal diwedd oes, yn arbennig mewn ardaloedd ble mae llawer yn siarad Cymraeg, fel bod siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf gyda dementia neu ar ddiwedd eu hoes yn gallu cyfathrebu'n fwyaf cysurus* (t. 10). Dywed y Democratiaid Rhyddfrydol hwythau, *The lack of provision for Welsh language speakers in the health care system can actively hamper their recovery - only 3-6% of people are actively offered healthcare services in Welsh. When an individual comes into contact with primary healthcare, it will often be during a period of frailty when they are feeling vulnerable. Individuals living with a wide variety of health issues such as dementia or experiencing a mental health crisis can experience severe difficulty in expressing their needs through a second language.* (maniffesto llawn, t. 91). Mae ganddynt nifer o gamau polisi penodol i fynd i'r afael â'r mater.

Mae pob plaid yn mynegi eu gobaith i gynyddu cefnogaeth i gynhalwyr ac yn addo polisïau penodol ar gyfer plant gydag awtistiaeth.

Tai fforddiadwy

Yn unol â'r ymgyrch Cartrefi dros Gymru, a gefnogir gan nifer o aelodau Cytûn, mae pob plaid yn addo cynnydd yn nifer y tai a adeiledir, ac mewn tai fforddiadwy yn benodol. Mae'n anodd cymharu'r ffigurau gan eu bod yn cyfeirio at bethau gwahanol; UKIP yw'r unig blaid i ymwrthod â thargedau. Mae'r Blaid Werdd a'r Ceidwadwyr yn rhoi pwyslais arbennig ar adnewyddu tai gweigion a UKIP a'r Democratiaid Rhyddfrydol ar droi swyddfeydd ac adeiladau eraill gweigion (gan gynnwys capeli, efallai?) yn gartrefi.

Mae Plaid Cymru, y Ceidwadwyr a UKIP yn pwysleisio'r angen i ddatblygiadau tai yng nghefn gwlad fod yn gymesur ag anghenion lleol ac (yn achos Plaid Cymru) natur ieithyddol y cymunedau hynny; byddai UKIP yn caniatáu refferendwm lleol ar ddatblygiadau mawr.

Mynegodd Cytûn bryderon am yr Hawl i Brynu cartrefi cymdeithasol. Mae Plaid Cymru a'r Blaid Lafur yn addo dileu'r hawl, a'r Ceidwadwyr i'w ymestyn.

Diwygio llywodraeth leol

- Mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi mabwysiadu awgrym Cytûn y dylid cyfyngu ar allu cynghorau tref a chymuned i gyfethol aelodau, ac am weld datganoli mwy o bwerau i'r prif awdurdodau lleol.
- Mae Plaid Cymru am weld cyfuno'r cynghorau tref a chymuned i ryw 150 o gynghorau ardal ar draws Cymru, cadw'r 22 prif awdurdod presennol, a chreu awdurdodau cyfun rhanbarthol i gyflawni rhai swyddogaethau ar y cyd.
- Mae'r Blaid Lafur am weld 8 neu 9 prif awdurdod, ac am ddatganoli pwerau ychwanegol i'r awdurdodau hynny.
- Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol, UKIP a'r Blaid Werdd o blaid datganoli grym o Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol a chyflwyno system bleidleisio cynrychiolaeth gyfrannol iddynt. Mae UKIP hefyd am ddileu'r system gabinet bresennol.

Mae yna lawer mwy ym maniffestos y pleidiau, ac fe allwch ddarllen y dogfennau llawn ar y we:

- Llafur Cymru - http://www.gydangilydddros.cymru/darllen_maniffesto
- Ceidwadwyr Cymreig - http://www.welshconservatives.com/news/welsh-conservative-manifesto-promises-secure-real-change-wales [gwefan Saesneg; gellir clicio ar faniffesto Cymraeg]
- Plaid Cymru - http://www.plaid2016.cymru/manifesto
- Democratiaid Rhyddfrydol Cymru - http://www.demrhyddcymru.cymru/maniffesto_crynodeb [crynodeb Cymraeg; ceir y manifesto llawn yn Saesneg yn unig yma: http://www.welshlibdems.wales/full_manifesto]
- UKIP - http://ukip.wales/2016-manifesto/ [gwefan Saesneg; gellir clicio ar faniffesto Cymraeg]
- Y Blaid Werdd – https://wales.greenparty.org.uk/manifesto16/ [gwefan Saesneg gan fwyaf; gellir clicio ar faniffesto Cymraeg]

Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru wedi cyhoeddi dadansoddiad o gynigion y pleidiau ar gyfer y trydydd sector yn gyffredinol, ynghyd â maniffestos sefydliadau eraill Cymru, yma: http://www.wcva.org.uk/what-we-do/assembly-election-2016

Gweddi dros yr Ymgeiswyr

O Dduw, ti yw ffynhonnell pob awdurdod, a phob gwaith da.
Diolchwn am bawb sy'n barod i dderbyn y cyfrifoldeb o lywodraethu, i fentro sefyll etholiad, ac i'w cyflwyno'u hunain i ewyllys y bobl yn y broses ddemocrataidd.
Gweddïwn ar i bawb sy'n chwennych swydd gael eu harwain gan awydd anhunanol i sicrhau'r pethau gorau i'r rhai y maent yn ymdrechu i'w cynrychioli, ac i hyrwyddo gonestrwydd a dealltwriaeth wrth drafod y materion sydd dan sylw.
Dyro i'r ymgeiswyr gryfder a dewrder yn ystod yr ymgyrch; a phan hysbysir y canlyniadau dyro iddynt ras a gwyleidd-dra mewn buddugoliaeth ac aflwyddiant, a haelioni ysbryd i gydweithio yn y blynyddoedd sydd i ddod er lles y wlad y maent yn dymuno'i gwasanaethu.
Gweddïwn hyn trwy Iesu Grist, yr ydym ynddo yn byw, yn symud ac yn bod. Amen.

Gweddi dros eraill sy'n gysylltiedig â'r etholiad

Dduw cariad,
Dygwn ger dy fron bawb y mae a wnelont â'r broses etholiadol,
ond nad ydynt yn sefyll am swydd. Gweddïwn dros:
Bartneriaid, teuluoedd a chyfeillion yr ymgeiswyr;
Ymgyrchwyr, swyddogion y pleidiau ac aelodau o garfanau pwyso;
Gweision sifil, cynghorwyr a phawb y mae'n rhaid iddynt fod yn ddiduedd;
Gweithwyr yn y cyfryngau newyddion, neu sy'n rhannu gwybodaeth ac yn hyrwyddo trafodaeth trwy ddulliau eraill.
Tywallt arnynt oll dy nerth cynhaliol yn y cyfnod hwn o straen.
Amddiffyn hwy, a phawbi sy'n annwyl ganddynt, rhag temtasiwn;
a bendithia hwy â synnwyr o gydbwysedd a synnwyr digrifwch.
Bydded iddynt gynghori'n ddoeth a thrugarog, gan wybod bod eu cyfraniad yn hanfodol i greu cymdeithas agored a hael a gwir ddemocrataidd.
Gofynnwn hyn oll trwy Iesu Grist, ein Hiachawdwr a'n Cyfaill. Amen.

Carol Wardman, cyf. Gwynn ap Gwilym (yr Eglwys yng Nghymru)

Ceir rhagor o ddeunydd addoli ar gyfer yr etholiad, ynghyd â fideos, papurau briffio, canllaw i'r drefn bleidleisio, a chysylltiadau defnyddiol i wefannau eraill, yn:
www.cytun.org.uk/etholiadau2016

CYSYLLTU Â SWYDDOG POLISI CYTÛN

Parch./Revd Gethin Rhys - Swyddog Polisi/Policy Officer
Cytûn - Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales
58 Richmond Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 3AT
Tel: 029 2046 4378 Mudol/mobile: 07889 858062
E-bost/E-mail: gethin@cytun.org.uk @CytunNew

Hapus i gyfathrebu yn Gymraeg ac yn Saesneg. Happy to communicate in Welsh and English

Mae Cytûn yn gwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr | Rhif: 05853982 | Enw cofrestredig: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" |
Mae Cytûn yn elusen gofrestredig | Rhif: 1117071 |
Dyddiad cyhoeddi: 27ain Ebrill 2016.
Cyhoeddir y Bwletin nesaf ar ôl yr etholiad tua diwedd mis Mai.